WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Diffygion o ran Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – **Cyngor Cymuned Rhosyr**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1299A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn sydd er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw un arall yn ei gymhwyster unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Cyflawnwyd y gwaith archwilio gan Deryck Evans dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau wedi'u dirprwyo ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau o ran trefniadau llywodraethu a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Rhosyr.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi nifer o fethiannau o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Rhosyr ac yn gwneud argymhellion ar gyfer mynd i'r afael â'r methiannau hynny. Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2017-18.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Barn archwilio 6

Argymhellion a'r camau nesaf 7

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi methu â pharatoi cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfnod o 2016-17 ymlaen 9

Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol yn ystod y cyfnod y mae'r archwiliad yn ymwneud ag ef 11

Methodd y Cyngor â sefydlu trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amryw gyfrifoldebau statudol 12

Mae'r Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd 14

Mae adroddiad yr archwilydd mewnol wedi'i danseilio gan bod yr archwilydd wedi paratoi cyfrifon a chwblhau rheolaethau cyfrifyddu allweddol ar ran y cyngor a, gan nad yw'n adlewyrchu canfyddiadau'r archwilydd mewnol, rwy'n dod i'r casgliad nad oedd yr archwiliad mewnol yn ddigonol ac effeithiol 15

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

### Diben y ddogfen hon

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned Rhosyr (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Yn ystod yr archwiliad, canfûm fethiannau arwyddocaol mewn trefniadau llywodraethu a diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol.

2 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu a'r diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd yn ei hystyried yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath mewn trefniadau llywodraethu'n digwydd eto'n cael ei leihau i'r eithaf. Mae gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

### Cyngor Cymuned Rhosyr

4 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu ardaloedd Llangeinwen, Niwbwrch, Dwyran a Llangaffo ar Ynys Môn. Mae'n gyfrifol am gynnal a chadw llwybrau troed cyhoeddus a dwy fynwent leol. Mae'r Cyngor yn gwario dros £20,000 y flwyddyn ar y gwasanaethau lleol hyn.

5 Mae'n ariannu'r gwariant hwn â phraesept gan Gyngor Sir Ynys Môn ac â ffioedd sy'n deillio o wasanaethau claddu. Mae'r praesept y gofynnir amdano gan Gyngor Sir Ynys Môn yn cael ei gasglu trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Caiff y symiau a godwyd dros y blynyddoedd diwethaf eu nodi yn Arddangosyn 1 isod. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad ac mae ei aelodau'n cael eu hethol gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.

#### Arddangosyn 1: Praesept Cyngor Cymuned Rhosyr

| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|
| Praesept Blynyddol | £19,500 | £19,500 | £26,400 | £26,400 |

6 Mae cynghorau cymuned fel Rhosyr, yn ôl eu natur fach iawn, yn dibynnu fel arfer ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn aml, penodir y Clerc yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol hefyd. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol

sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn arbennig, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

7 Er bod rôl y Clerc/Swyddog Cyllid Cyfrifol yn bodoli, yn ôl y gyfraith (Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

8 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

9 Fe wnaeth oedi cyn cael y ffurflen flynyddol ar gyfer 2015-16 ac eto ar gyfer 2016-17 beri i'r archwilwyr a oedd yn gweithio ar fy rhan atgyfeirio Cyngor Cymuned Rhosyr ataf fi. Mae hyn wedi arwain at neilltuo'r archwiliadau hyn o'r cyfrifon i aelod o staff Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn gweithio dan fy nghyfarwyddyd i, er mwyn eu cwblhau'n foddhaol.

10 Caiff canfyddiadau fy archwiliad, sy'n datgelu elfennau o lywodraethu gwael a rheolaeth ariannol wael, eu crynhoi isod a chânt eu hystyried mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

11 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyflwyno'r cyfrifon hynny i gael eu harchwilio gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cyngor wedi methu â pharatoi cyfrifon ar gyfer blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18. Mae hefyd wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol yn ystod y cyfnod hwn.

12 Yn ychwanegol at y materion cyfrifyddu hyn, mae'r Cyngor wedi methu â sicrhau ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol am agweddau eraill ar lywodraethu a rheolaeth ariannol.

13 Er gwaethaf yr uchod, mae'r Cyngor wedi cael adroddiad archwilio mewnol sy'n darparu sicrwydd ynghylch ei drefniadau cyfrifyddu, rheolaeth ariannol a llywodraethu. Fodd bynnag, mae'r adroddiad ei hun wedi'i danseilio gan nad yw'n adlewyrchu'r materion a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad mewnol.

14 Ar ben hynny, un o'r gofynion allweddol ar gyfer y rôl archwilio mewnol yw bod yr archwilydd yn annibynnol ar brosesau penderfynu a rheolaeth ariannol y Cyngor. Yn yr achos hwn, yr archwilydd mewnol ei hun a baratôdd y cyfrifon ac a gwblhaodd reolaethau cyfrifyddu allweddol fel rhan o'i archwiliad. Mae hyn yn golygu bod yr archwilydd mewnol wedi darparu sicrwydd ynghylch gwaith a gwblhawyd ganddo ef ei hun. Yn seiliedig ar fy archwiliad i, rwyf o'r farn bod y sicrwydd hwnnw a ddarparwyd gan y swyddogaeth archwilio mewnol yn annibynadwy ac felly bod y Cyngor wedi methu â chynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol.

15 Yr hyn sy'n amlwg i mi yw nad yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol i'w argyhoeddi ei hun ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol am reolaeth ariannol a llywodraethu. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi rhoi cydnabyddiaeth ddigonol i faterion na gweithredu'n ddigonol ar faterion mewn perthynas â digonolrwydd eu trefniadau llywodraethu.

16 Mae'r adran nesaf o'r adroddiad hwn yn nodi'r diffygion a'r gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor sydd wedi bod yn amlwg iawn i mi yn ystod yr archwiliad.

# Barn archwilio

17 Yn sgîl y materion yr wyf wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn rwy'n bwriadu cyhoeddi barn archwilio amodol ar gyfer 2016-17 a 2017-18 fel a nodir isod:

- mae'r Cyngor wedi methu â chadw cofnodion cyfrifyddu priodol fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad 6 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ac felly nid wyf yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r datganiadau cyfrifyddu wedi'u paratoi yn unol ag arferion priodol a'r Rheoliadau;
- ni chaiff yr haeriadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol eu hategu gan y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad ac nid ydynt yn adlewyrchu rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu'r Cyngor.
- nid yw'r Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol ar gyfer:
  - mabwysiadu cod ymddygiad ar gyfer yr aelodau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
  - cynnal cofrestr o fuddiannau'r aelodau dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;
  - cyhoeddi dogfennau dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013;
  - cynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014;
  - cyfrifo'i ofyniad cyllidebol dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cyllid) 1992.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Argymhellion

18 Ar sail fy adolygiad, rwy'n tynnu sylw'r Cygnor at yr argymhellion canlynol:

### Arddangosyn 2: Argymhellion

Rwy'n gwneud wyth argymhelliad i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn ystod yr archwiliad

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Datganiad Cyfrifon a Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael eu paratoi a'u cymeradwyo cyn 30 Mehefin bob blwyddyn, ac yna'n cael eu hanfon yn brydlon at yr Archwilydd Cyffredinol i gael eu harchwilio a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi. |
| A2 | Dylai'r Cyngor adolygu ei system gyfrifyddu a rheolaeth fewnol i sicrhau bod y rhain yn ddigonol ac yn effeithiol. |
| A3 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi cyllideb cyn pennu ei braesept ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sicrhau bod hawliau etholwyr i edrych ar y cyfrifon blynyddol ac ymgysylltu â'r archwilydd allanol (os ydynt yn dymuno) yn cael eu darparu'n ffurfiol ac y dangosir tystiolaeth o hynny. |
| A5 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau. |
| A6 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn paratoi ac yn cynnal cofrestr o fuddiannau'r aelodau. |
| A7 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn nodi pa ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig ac yn gwneud trefniadau priodol i osod y rhain ar ei wefan yn brydlon. |
| A8 | Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud trefniadau addas ar gyfer archwiliad mewnol digonol ac effeithiol gan gynnwys adolygiad o'r sicrwydd a ddarperir gan yr archwilydd mewnol. |

## Y camau nesaf

19 Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor fynd ati yn awr i ystyried yr adroddiad neu'r argymhellion yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad a/neu'r argymhellion yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad a/neu'r argymhellion yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a/neu'r argymhellion.

20 Wedyn bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Hydref 2019

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi methu â pharatoi cyfrifon blynyddol ar gyfer y cyfnod o 2016-17 ymlaen

### Caiff y gofynion ar gyfer cymeradwyo a chyhoeddi cyfrifon y Cyngor eu nodi mewn statud

21 Dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), rhaid i'r Cyngor:

- baratoi ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu ba bynnag ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo'n gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.


22 Mae Rheoliad 15 yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol:

- rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y cyngor baratoi'r cyfrifon ac ardystio eu bod yn cyflwyno derbyniadau a thaliadau'r cyngor yn briodol, neu'n rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y cyngor. Mae'r Swyddog Cyfrifyddu Ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad i ddangos ei fod wedi ardystio'r datganiadau ariannol. Darperir ar gyfer llofnod a dyddiad mewn ffurflen flynyddol.
- rhaid i aelodau'r cyngor ystyried y datganiadau cyfrifyddu mewn cyfarfod llawn ac, yn dilyn eu hystyried, cymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu ar gyfer eu cyflwyno i'r archwilydd trwy benderfyniad gan y cyngor; ac yn dilyn eu cymeradwyo, sicrhau bod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle rhoddwyd y gymeradwyaeth honno i'r datganiadau ariannol yn rhoi llofnod a dyddiad arnynt.
- rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

23 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r ffurflen flynyddol rhaid iddi gael ei hanfon at yr archwilydd allanol y mae'n rhaid iddo yntau yn ei dro gwblhau ei archwiliad erbyn 30 Medi fan bellaf. Crynhoir y broses yn Arddangosyn 3 isod:

Arddangosyn 3: Y broses ar gyfer y cyfrifon ac archwilio

Mae’r trefniadau ar gyfer y cyfrifon ac archwilio’n dilyn y broses a nodir isod




Ffynhonnell: Ffurflen flynyddol.

24 Rhaid i’r cyngor hefyd gyhoeddi ei gyfrifon ynghyd ag unrhyw dystysgrif neu adroddiad archwilio erbyn 30 Medi. Os yw’n eu cyhoeddi cyn i’r archwiliad ddod i ben a bod dim barn o’r fath wedi cael ei rhoi, rhaid i’r Cyngor gyhoeddi’r cyfrifon heb eu harchwilio a hysbysiad sy’n cynnwys datganiad ac esboniad bod yr archwilydd, ar y dyddiad cyhoeddi, heb roi unrhyw farn.

25 Ceir manylion pellach y gofynion ar gyfer paratoi, cymeradwyo ac archwilio Cynghorau Tref a Chymuned yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014) a ategir gan ganllawiau Un Llais Cymru/Cymdeithas y Clercod Cynghorau Lleol, **Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr** (y Canllaw i Ymarferwyr).

## Mae’r Cyngor wedi methu â pharatoi ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2016-17 a blynyddoedd dilynol

26 Yn sgîl oedi ac anawsterau sylweddol a wynebwyd gan archwilwyr a oedd yn gweithredu ar fy rhan, fe wnaeth yr archwilwyr, BDO, atgyfeirio’r Cyngor ataf fi. Fe gysylltais i â’r Cyngor ym mis Tachwedd 2018 ac fe ofynnais iddo ddarparu’r cyfrifon wedi’u cwblhau ar fy nghyfer ar ffurf ffurflen flynyddol ar gyfer 2016-17 a 2017-18. Cyfarfu’r Cyngor â’m tîm archwilio ar 23 Tachwedd 2018 ac fe ddarparodd ei gofnodion cyfrifyddu i gael eu hadolygu a dwy ffurflen flynyddol. Fodd bynnag, er bod archwilydd mewnol wedi cwblhau adroddiad ar ffurflen flynyddol 2016-17, nid yw’r ffurflenni blynyddol wedi cael eu cwblhau’n llawn.

27 Canfu fy adolygiad o gofnodion y Cyngor na ddarparodd y Clerc gyfrif cyflawn a chytbwys ar gyfer y Cyngor o’i berfformiad o ran ymlynu wrth y terfynau amser hyn.

28 Er bod yr oedi gan y Clerc cyn cyflwyno'r ffurflenni blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd wedi bod yn ffactor ym methiant y Cyngor i gydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol, rhaid i'r Cyngor ei hun gymryd rhywfaint o gyfrifoldeb am y methiant hwn. Nid wyf wedi canfod unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cymryd unrhyw gamau i ymdrin â'r mater o ran cyflwyno a chyhoeddi ei gyfrifon yn hwyr.

29 Ar y sail hon, rwy'n dod i'r casgliad nad yw Cyngor Cymuned Rhosyr wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldebau statudol fel a nodir uchod am baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ar gyfer 2016-17 a 2017-18.

# Nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol yn ystod y cyfnod y mae'r archwiliad yn ymwneud ag ef

## Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion cyfrifyddu priodol

30 Mae Rheoliad 6 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol (y Clerc) gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigon i ddangos ac egluro trafodion y Cyngor ac i alluogi'r Swyddog Cyllid Cyfrifol i sicrhau bod unrhyw ddatganiad cyfrifon neu ddatganiad cyfrifyddu'n cydymffurfio â'r Rheoliadau.

31 Ar gyfer cyngor fel Rhosyr, gallai'r cofnodion cyfrifyddu fod yn gyfyngedig i'r isod:

- llyfr arian sy'n cofnodi trafodion; a
- dogfennaeth ategol, er enghraifft, anfonebau a derbynebau.

## Er bod gan y Cyngor lyfr arian, nid yw wedi bod yn cael ei baratoi na'i gadw'n briodol

32 Dylai'r Cyngor roi manylion ei drafodion yn y llyfr arian wrth i'r trafodion hynny gael eu cynnal. Wedyn dylai cyflawnrwydd a chywirdeb y llyfr arian gael eu gwirio trwy gysoni'r llyfr arian â chyfriflenni banc y Cyngor pan fo cyfriflen banc yn dod i law. Gan y gall fod oedi rhwng cynnal trafodion a phrosesu trafodion gan y banc, e.e. sieciau, ni ddylai'r llyfr arian gael ei gwblhau fel copi uniongyrchol o'r cyfriflenni banc gan na fydd yn adlewyrchu sefyllfa ariannol y Cyngor ar unrhyw adeg benodol.

33 Canfu fy archwiliad fod y Cyngor yn cofnodi ei sieciau allan o drefn. Mae hyn yn dynodi bod y llyfr arian yn cael ei gwblhau o'r cyfriflenni banc yn hytrach na'r cofnodion sylfaenol.

34 Ar ddiwedd y flwyddyn, dylai'r llyfr arian gael ei grynhoi a'i 'fantoli' er mwyn paratoi'r cyfrifon blynyddol. Mae'r ymarfer mantoli hwn yn sicrhau bod torbwynt priodol ar gyfer cofnodi trafodion ac mae o gymorth i gysoni â'r gyfriflen banc ar

ddiwedd y flwyddyn. Eto, mae'r ymarfer 'mantoli' hwn yn wiriad pwysig o gyflawnrwydd a chywirdeb cofnodion y Cyngor.

35 Canfu fy archwiliad nad yw'r Cyngor wedi mantoli ei lyfr arian yn briodol ar gyfer 2016-17 na 2017-18.

# Methodd y Cyngor â sefydlu trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag amryw gyfrifoldebau statudol

## Nid yw'n ymddangos bod y Cyngor wedi pennu cyllideb briodol cyn codi ei archeb praesept

36 Bob blwyddyn mae'r Cyngor yn cyflwyno praesept i awdurdod bilio'r dreth gyngor, sef Cyngor Sir Ynys Môn.

37 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol er mwyn pennu ei braesept. Mae'r Ddeddf yn nodi bod rhaid i'r Cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol trwy ystyried y canlynol gyda'i gilydd:

- y gwariant y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei ysgwyddo yn y flwyddyn wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- pa bynnag lwfans fydd yn briodol yn ôl amcangyfrifon y Cyngor ar gyfer hapddigwyddiadau mewn perthynas â gwariant;
- y cronfeydd ariannol wrth gefn y bydd yn briodol eu codi yn y flwyddyn yn ôl amcangyfrifon y Cyngor i ariannu ei wariant amcangyfrifedig yn y dyfodol neu i unioni unrhyw ddiffyg a gododd mewn blwyddyn ariannol gynharach;
- y symiau a fydd yn daladwy i'r Cyngor am y flwyddyn yn ôl ei amcangyfrifon, ac eithrio'r praesept; a
- swm y cronfeydd wrth gefn y mae'r awdurdod yn amcangyfrif y bydd yn eu defnyddio er mwyn ariannu ei wariant.

38 Y swm net ar ôl ystyried yr eitemau hyn a gyflwynir wedyn i awdurdod bilio'r dreth gyngor.

39 Ar gyfer 2015-16 a 2016-17, nid wyf wedi gweld unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi cydymffurfio â gofynion Deddf 1992 ac ystyried cyllideb ar gyfer y flwyddyn mewn modd priodol.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 i fabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau

40 Rhan hanfodol o fframwaith llywodraethu unrhyw gorff yw'r ymddygiad a ddangosir gan aelodau'r corff hwnnw. Fe greodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Deddf 2000) fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Fe greodd bŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod ymddygiad enghreifftiol i fod yn berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

41 Mae'n ofynnol i gynghorau lleol fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn ei gyfanrwydd, ond gallant wneud ychwanegiadau at y Cod, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cod Enghreifftiol. Wedyn mae'r Cod a fabwysiadwyd yn lleol yn rhan annatod o fframwaith llywodraethu'r cyngor unigol.

42 Yn ystod fy archwiliad nid oeddwn yn gallu dod o hyd i dystiolaeth bod y Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer yr aelodau.

## Mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 i fabwysiadu, cadw a chyhoeddi cofrestr o fuddiannau'r aelodau

43 Wrth gyflawni eu dyletswyddau, mae angen i aelodau benderfynu a oes ganddynt fuddiant personol ac, os felly, a oes angen iddynt ei ddatgelu. Lle mae gan aelodau fuddiant y mae angen iddynt ei ddatgelu, rhaid iddynt ddatgelu ei natur mewn cyfarfodydd, wrth wneud sylwadau ysgrifenedig, gan gynnwys negeseuon e-bost, ac wrth wneud sylwadau ar lafar. Mae'r datgeliad hwn yn ofynnol hyd yn oed os yw'r buddiant wedi'i gofnodi ar gofrestr buddiannau'r Cyngor.

44 Mae Adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gadw cofrestr o fuddiannau a ddatgelwyd a chyhoeddi'r gofrestr honno'n electronig.

45 Canfu fy archwiliad nad yw'r Cyngor yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2000 ac nad yw'n cadw cofrestr o fuddiannau. Er y gall aelodau fod yn ymwybodol o'r angen i ddatgelu buddiannau mewn cyfarfodydd, mae'r Cyngor wedi methu â chydnabod bod rhaid iddo gadw a chyhoeddi cofrestr hefyd.

## Er bod gan y Cyngor wefan, nid yw'n cyhoeddi'r holl ddogfennau y mae'n ofynnol iddo'u cyhoeddi'n electronig

46 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor lleol drefnu bod eu manylion cyswllt a manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion ar gael dros y rhyngrwyd. Mae Deddf 2013

hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor gyhoeddi eu cofrestr o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau cyhoeddus a chyfrifon archwiliedig yn electronig.

47 Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf 2013 wedi'u bwriadu i wella atebolrwydd cynghorau lleol i'w hetholaethau.

48 Er bod y Cyngor wedi sefydlu gwefan, canfu fy archwiliad nad yw wedi cyhoeddi'r wybodaeth y mae'n ofynnol iddo'i chyhoeddi'n electronig. Nid yw'r wefan yn cynnwys copi o gofrestr y Cyngor o fuddiannau'r aelodau, hysbysiadau archwilio, cyfrifon archwiliedig na chofnodion cyfarfodydd.

# Mae'r Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol ar gyfer arfer hawliau'r cyhoedd

## Mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i wneud trefniadau i etholwyr arfer eu hawliau dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

49 Mae Adrannau 30 a 31 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer hawliau'r cyhoedd i edrych ar y cyfrifon sydd i'w harchwilio, i holi'r archwilydd am y cyfrifon ac i wneud gwrthwynebiadau i'r archwilydd ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan yr archwilydd y pŵer i wneud y canlynol mewn perthynas ag ef:

- gwneud cais am ddatganiad bod eitem yn y cyfrifon yn anghyfreithlon; ac
- unrhyw fater arall y mae gan yr archwilydd y pŵer i lunio adroddiad arno dan adran 22 o Ddeddf 2004.

50 Mae Rheoliad 17 yn Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff roi hysbysiad trwy hysbyseb i'r cyhoedd mewn lle neu leoedd amlwg a hwnnw'n nodi'r cyfnod pan fo'r cyfrifon a dogfennau eraill ar gael iddynt edrych arnynt ac yn rhoi'r manylion canlynol:

- y lle y byddant, a'r oriau pan fyddant, ar gael ar gyfer hyn;
- enw a chyfeiriad yr archwilydd;
- y darpariaethau yn adran 30 ac adran 31 o Ddeddf 2004; a hefyd
- y dyddiad a bennwyd dan Reoliad 21 o Reoliadau 2014.

## Mae'r Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol ar gyfer arfer hawliau etholwyr dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004

51 Er y gofynnwyd yn benodol am hynny ar gyfer yr archwiliad, mae'r Cyngor wedi methu â darparu unrhyw dystiolaeth ei fod wedi cydymffurfio â gofynion Deddf 2004 a Rheoliadau 2014.

52 Beth bynnag, yn niffyg unrhyw gyfrifon a gymeradwywyd mae'n amlwg i mi nad yw'n bosibl bod y Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau dan Ddeddf 2004 a Rheoliadau 2014.

53 Felly, er mwyn sicrhau bod etholwyr y Cyngor yn cael y cyfle i arfer eu hawliau dan Ddeddf 2004, fe bennais 29 Gorffennaf 2019 fel y dyddiad cyntaf pan all etholwyr lleol arfer eu hawliau ar gyfer cyfrifon 2016-17 a 2017-18.

## Mae adroddiad yr archwilydd mewnol wedi'i danseilio gan bod yr archwilydd wedi paratoi cyfrifon a chwblhau rheolaethau cyfrifyddu allweddol ar ran y cyngor a, gan nad yw'n adlewyrchu canfyddiadau'r archwilydd mewnol, rwy'n dod i'r casgliad nad oedd yr archwiliad mewnol yn ddigonol ac effeithiol

54 Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl gynghorau cymuned sicrhau bod ganddynt system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol.

55 Mae archwilio mewnol yn rhan bwysig o'r fframwaith rheolaeth fewnol ar y cyfan. Dylai'r archwilydd mewnol fod yn annibynnol, h.y. peidio â bod ag unrhyw ran ym mhroses benderfynu'r Cyngor nac unrhyw rôl yn y gwaith o gynnal y system gyfrifyddu a pharatoi'r cofnodion blynyddol. Dylai'r archwilydd mewnol gael ei gyflogi i gyflawni rhaglen waith y cytunwyd arni, dylai ei berfformiad gael ei ystyried yn flynyddol a dylid cofnodi'r penderfyniad i'w ailbenodi.

56 Mae'r Ffurflen Flynyddol yn cynnwys templed ar gyfer adroddiad archwilio mewnol sy'n rhoi enghraifft o'r gweithdrefnau archwilio mewnol y gellid eu cyflawni ac sy'n darparu templed i gyflwyno adroddiad ar y canfyddiadau archwilio i'r Cyngor. Nid yw'n orfodol cwblhau'r templed ond lle nad yw'n cael ei ddefnyddio, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael adroddiad manwl ar wahân gan yr archwilydd mewnol.

57 Penododd y Cyngor archwilydd mewnol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-17 ac mae'r archwilydd mewnol wedi darparu adroddiad manwl ar gyfer y Cyngor sy'n nodi cwmpas y gwaith a wnaed yn yr adran o Ffurflen Flynyddol 2016-17 sydd wedi'i neilltuo i'r adroddiad archwilio mewnol.

58 Fodd bynnag, mae'r archwilydd mewnol wedi darparu sicrwydd nad yw'n cael ei ategu gan y dystiolaeth a gyflwynwyd i'w harchwilio. Er bod yr archwilydd mewnol wedi darparu sicrwydd cadarnhaol, roedd ffurflen flynyddol 2016-17 yn wag fel arall ac fel a nodir uchod, rwy'n dod i'r casgliadau isod:

- nid yw'r cyfriflyfrau wedi cael eu cadw'n briodol drwy'r flwyddyn ac nid ydynt wedi cael eu mantoli a'u cysoni;
- nid oes tystiolaeth i awgrymu bod y praesept wedi cael ei bennu gan ddilyn proses gyllidebol briodol; ac

- nid yw'r datganiadau cyfrifyddu wedi cael eu paratoi eto.

59 Mewn sylwadau ysgrifenedig, fe eglurodd yr archwilydd mewnol bod y clerc, wrth gyflwyno'r cofnodion cyfrifyddu ar gyfer yr archwiliad mewnol, wedi nodi nifer o hepgoriadau a diffygion yn y cofnodion cyfrifyddu gan gynnwys:

- roedd y llyfr arian a gadwyd gan y clerc yn anghyflawn; ac
- nid oedd y Clerc wedi cysoni'r llyfr arian â'r cyfrifon banc yn ystod y flwyddyn.

60 Fe geisiodd yr archwilydd mewnol gynorthwyo'r Cyngor trwy roi cymorth adeiladol yn hytrach nag adroddiad beirniadol. I'r perwyl hwn, fe baratôdd ymarfer cysoni â'r cyfrifon banc, datganiad cyfrifon drafft ac eglurhad o'r amrywiannau rhwng cyfrifon 2015-16 a 2016-17. Wedyn cafodd yr adroddiad archwilio mewnol ei gwblhau ar y sail hon.

61 Er bod yr archwilydd mewnol wedi darparu llawer o'r wybodaeth a oedd yn ofynnol i baratoi'r cyfrifon ar gyfer eu harchwilio, ni wnaeth y Cyngor ddefnyddio'r cymorth hwn drwy gwblhau'r ffurflen flynyddol.

62 Yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n deillio o'm gwaith archwilio, nid wyf o'r farn bod y broses archwilio mewnol yn gadarn. Mae'n bwysig bod yr archwilydd mewnol yn gweithredu'n annibynnol ar y broses paratoi cyfrifon ac yn darparu arfarniad cadarn o'i ganfyddiadau archwilio er mwyn tynnu sylw'r Cyngor at wendidau mewn systemau a rheolaethau ariannol.

63 Trwy baratoi datganiadau cyfrifyddu drafft a chwblhau'r ymarfer cysoni â'r cyfrif banc, fe gyfranogodd yr archwilydd mewnol yn y system cyfrifyddu a rheolaeth ariannol yr oedd ef i fod i'w hasesu. Felly, rwy'n dod i'r casgliad na wnaeth y Cyngor gynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer 2016-17.

64 Er clod iddo, mae'r archwilydd mewnol wedi cydnabod hyn ac mae'n cydnabod y dylai'r Cyngor fod wedi cael asesiad llawn o'r diffygion a ganfuwyd ganddo.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru